

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### **Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher 11eg o Fawrth 2020 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

**Presennol;** Cynghorwyr Iwan Foulkes, Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Arfon Hughes, Robin Hughes, Berwyn Harding, Sion Alun Roberts, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

#### **1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cynghorydd Iwan Foulkes.**

Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng. Berwyn Hughes a Catrin Jones. Mynegwyd cydymdeimlad dwys gyda'r Cyng. Iwan Foulkes a'r Clerc yn y brofedigaeth lem o golli Elisabeth Jones, Ty'n Rhos Cemaes Road.

#### **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf – 22ain Ionawr 2020.**

Trafodwyd cywirdeb i ddechrau, a chynigiodd y Cyng. Arfon Hughes nad oedd cofnod 7d yn gywir, sef bod hyfforddiant hefyd wedi ei nodi fel rhan o'r canllawiau i'r ddau Gynghorydd newydd, ond nad oedd wedi ei gofnodi. Ni chafwyd eilydd i'r cynnig gan Arfon.

Hefyd, cynigiodd y Cyng. Arfon Hughes nad oedd cofnod 3h yn gywir, sef ei fod wedi gwenud cais i'r 'Gwaith yn yr Hen Fynwent a'r Ty Hers' i ymddangos ar yr agenda yn rheolaidd, ac nid ar yr agenda bresennol yn unig. Ni chafwyd eilydd i gynnig Arfon.

Cadarnhawyd gofnodion cyfarfod o'r 22ain Ionawr fel rhai cywir fel y cawsant eu cyflwyno ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio gan Idris Jones, gyda chefnogaeth gweddill y Cynghorwyr.

Cadarnhaodd y ddau Gynghorydd newydd, sef Sion Alun Roberts a Robin Hughes, fod y Clerc wedi galw gyda'r ddau ohonynt yn dilyn eu penodiad, ac wedi rhoi y papurau perthnasol iddynt, ac egluro trefniadau'r Cyngor. Roeddynt yn hapus gyda hyn.

Yn achos 'Gwaith yn yr Hen Fynwent a'r Ty Hers', adroddodd Cyng Iwan Foulkes fod camau mewn llaw i sefydlu ymddiriedolaeth newydd. Roedd enwau wedi eu rhoi gerbron, ac roedd yn gobeithio y byddai hyn wedi ei sefydlu erbyn y tro nesaf.

Eglurwyd hefyd na ddylid ystyried hyn fel Is Bwyllgor o'r Cyngor Cymuned, ac yn wir nad oedd yn rhan o waith y Cyngor Cymuned.

#### **3. Materion yn codi .**

- a. **Materion Priffyrdd** – adroddwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf. O ran biniau cadw graean, adroddodd y Clerc mai £46 fyddai cost llenwi bin halen, a chost o £396 i gael cost bin o'r newydd wedi ei osod gyda halen ynddo. Adroddwyd fod y bin wrth Wern Ddu a'r bin ar y ffordd i Cefn, Aberangell wedi eu llenwi. Gwelwyd mai oherwydd nad oedd y lori graeanu yn mynd ar rai ffyrdd bellach, yn arbennig drwy'r Cytir, oedd y rheswm am yr angen am finiau, ac y dylid gofyn am finiau yn rhad ac am ddim yn y lle cyntaf. Dywedodd Cyng. John P Roberts y byddai yn gwneud y cais yma. Os oedd angen mynd ymlaen, cytunwyd i'r pryniant, sef un ar riu Abercywarch, a'r llall hanner ffordd fynny rhiw y Cytir uwchlaw mynedfa Ty Gwyn. Byddai angen

gwybod yn union pryd y byddai'r biniau yn cael eu gosod, fel bod un Cynghorydd yn medru mynd atynt i'w cyfarfod, a sicrhau eu bod yn cael eu rhoi yn y lle iawn.

Darllenwyd ymateb Mervyn Wyn Morris o'r Adran Cefnffyrdd, ac roedd siom nad oedd wedi derbyn mai ceblau hen sustem deledu Dinas oedd dan sylw, ac nid gwifrau teliffon. Roedd hyn wedi ei godi ers 2018, ac roedd lluniau wedi eu tynnu gan y Cyng Arfon Hughes ac wedi eu danfon iddynt. Mewn un achos roedd ef wedi rhoi y cebl yn daclus yn ddiweddar. Gwelwyd fod angen ysgrifennu eto a chyfarfod ar y safle gyda'r Adran Cefnffyrdd, a chytunodd Cyng Arfon Hughes ac Hedd Pugh i wneud hyn.

- b. **Gwaith ffensio llain o dir o dan y fynwent yn y Dinas, a gwaith ym mynwent Llanymawddwy** - adroddwyd am waith taclus dros ben.
- c. **Bwrdd gwybodaeth a oedd wedi ei daro i lawr yn Mallwyd** – adroddodd y Cyng Arfon Hughes fod angen hefyd rhoi sylw i'r Bwrdd Gwybodaeth ger y Llew Coch, a bod angen ei drwsio. Trafodwyd hyn a chytunwyd i gost o £100 yr un. Byddai Arfon yn son wrth Hefin Pugh.
- d. **Coeden Nadolig o flaen y Neuadd** – gofynnod y Cyng Arfon Hughes pa bryd y bydd twll yn cael ei wneud i'r goeden Nadolig. Cadarnhawyd fod hyn mewn llaw gan y Cyng. Idris Jones, John P Jones, Hedd Pugh a Geraint Morgans.
- e. **Un Llais Cymru** – addawodd y Clerc barhau i ddanfon gwybodaeth oddiamgylch Cynghorwyr, ac roedd angen sicrhau fod gwybodaeth am Gyfarfodydd Meirionnydd yn cael ei ddanfon i'r Clerc. Roedd cais wedi ei wneud am hyn gan y Clerc yng nghyfarfod 8fed Ionawr yn y Llyfrgell Rydd Dolgellau.

#### 4. Materion Cynllunio.

Roedd un cais wedi ei ddsbarthu ers y cyfarfod diwethaf, sef Adeiladu ty ger Cefn Gwyn Hall, Aberangell.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais yma.

#### 5. Materion Cyllid.

##### a) Penderfynnu ar geisiadau am arian sydd i law.

Roedd llythyr o ddiolch i law gan Catrin Owen, Trysorydd Clwb Ffermwyr Ieuaic Dinas Mawddwy.

Amlinellwyd l ddechrau yr anfonebau oedd l law, a chytunwyd l'w talu fel a ganlyn;

E W Owen a'i Chwmni- paratoi PAYE, P60 ayyb - £204.

Dafydd Wyn Edwards – Gwaith ffensio ym mynwent Llanymawddwy a Dinas Mawddwy - £1050.

Penderfynwyd ymuno ag Un Llais Cymru ar gyfer 2020-21 ar gost o £122.

Adroddwyd **am y ceisadau i law am gyfraniadau**, a chytunwyd fel a ganlyn;

Eisteddfod y Groglith - £600. (cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Hedd Pugh ag Arfon Hughes)

Ysgol Feithrin Dolybont - £800.(cafwyd datganiad diddordeb gan Iwan Foulkes, Robin Hughes a Sion Alun Roberts)

Undeb Ysgolion Sul Dinas Mawddwy - £250.(Cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Robin Hughes)

Ambiwlans Awyr Cymru - £300.

Penderfynwyd peidio cyfrannu i gais gan Teenage Cancer Trust Cymru.

b) **Cydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr** – adroddodd y Clerc am yr hawl gan bob Cynghorydd i hawlio £150 am yn y flwyddyn 2019-20. Nid oedd unrhyw Gynghorydd yn awyddus i'w hawlio, a dosbarthwyd llythyr I bawb yn rhoi cadarnhad o hyn ar gyfer y Clerc. (Cadarnhaodd y Clerc ei fod yn gorfod ymateb I holiadur Llywodraeth Cymru ar y mater yma – a'l fod eisoes wedi gwneud hyn ar gyfer 2018-19)

c) **Penderfynnu ar gydnabyddiaeth a chostau y Clerc.**(gadawodd y Clerc yr ystafell pan drafodwyd hyn)  
Cyhoeddwyd y penderfyniad o godi y cydnabyddiaeth/costau am gyfanswm o £300.

## 6. Gohebiaeth.

- a) Dosbarthwyd ffurflen Cofrestr Buddiannau Cynghorwyr i bob un Cynghorydd i'w gwblhau – roedd hyn wedi ei ddanfôn i bawb o'r Cynghorwyr drwy e-bost ar y 1af o Fawrth. Atgoffwyd pawb fod hyn wedi ei wneud yn flaenorol, ond roedd yn angenrheidiol eleni fod y ffurflenni yma yn ymddangos ar ein gwefan. Rhoddwyd eglurhad gan y Clerc ynglyn a chyhoeddi ymlyniad gwleidyddol ar y ffurflen, a darllenwyd yr adran berthnasol o ganllawiau Un Llais Cymru lle roedd cyfeiriad at y Ddeddf.
- b) Amlinellwyd gynnwys llythyr drafft gan y Clerc i ymrwymo yr Archwilydd Mewnol eto eleni, sef Ms Luned Fon Jones a'i thim yn Uned Archwilio Cyngor Gwynedd. Cytunwyd yn llawn i hyn.
- c) Darllenwyd yn llawn llythyr gan Sioned E Williams o Gyngor Gwynedd yn amlinellu cymorth a chyngor i drigolion a busnesau sydd ar gael yng nghydestun Brexit.
- d) Nodwyd gynnwys e-bost gan Lywodraeth Cymru yng nghydestun Rhandiroedd (Allotments) – addawodd y Clerc ddanfôn copi i'r Cyng Arfon Hughes.
- e) Darllenwyd e-bost gan Rab Jones, Clerc Cyngor Bro Llanbryn-mair ac Ysgrifennydd Fferm Wynt Llanbryn-mair yn dweud iddo dderbyn cais gan Mr Arfon Hughes ar ran Cwmni Nod Glas, oedd tuag at gostau datblygu taith gerdded ar draws cymunedau Mawddwy a Llanbryn-mair – ac yn gofyn a oedd Cyngor Mawddwy wedi cynnig unrhyw gymorth ariannol neu gefnogaeth mewn egwyddor i'r cynllun. Penderfynwyd, ar gynnig Cyng Hedd Pugh a'i eilio gan Cyng Idris Jones i adael hwn ar y bwrdd gan fod hyn yn fater iddynt hwy yn Llanbryn-mair.
- f) Cyfeiriwyd at holiadur ar ran Ecodyfi a oedd wedi ei ddosbarthu gan y Clerc i bawb o'r Cynghorwyr ers yr 20fed o Chwefror, sef holiadur wedi ei ddanfôn gan Arfon Hughes ar ran Eco Dyfi.
- g) Adroddodd y Clerc ei fod wedi dosbarthu e-bost i bawb o'r Cynghorwyr ers y 7fed o Fawrth yn cynnwys linc i ganllawiau'r Ombwdsman – ac a oedd yn cynnwys gwybodaeth pwysig a gwerthfawr. Adroddodd hefyd ei fod wedi dosbarthu unwaith eto gopi o'r cod ymddygiad i bawb o'r Cynghorwyr, a phenderfynyd yn ffurfiol i fabwysiadu'r cod yma ar ein cyfer fel Cyngor.
- h) Dosbarthwyd Asesiad Risg a oedd wedi ei baratoi gan y Clerc mewn drafft ar gyfer Cyngor Cymuned Mawddwy. Cytunwyd i'r cynnwys, ac gofynnwyd gan y Cyng Arfon Hughes i ychwanegu fod angen i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- i) Nodwyd llythyr diweddar Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn amlinellu rhaglen waith ar Ffordd Nantyrhenfaes a rhaglen arwyddo llwybrau cyhoeddus yn ardal Dinas Mawddwy.

- j) Darllenwyd e-bost gan Olwen Jones Ty'n Braich yn cyfeirio at ddifrod yn dilyn glaw ar y ffordd yn arwain at y fferm, - byddai'r Clerc yn ei gynnwys ar y rhestr sy'n cael ie ddanfon i'r Cyngor.
- k) Nodwyd ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ynglyn a Pont newydd dros y Ddyfi yn Machynlleth, a oedd yn cynnwys mapiau a gwybodaeth llawn.
- l) Nodwyd ddatganiad i'r wasg gan Cyngor Iechyd Cymuned yn amlinellu eu pryder am yr oedi cyn i gleifion adael yr ysbyby – a'r problemau fel canlyniad i hyn.

## 7. Unrhyw Fater arall.

- a) Roedd y Cyng Hedd Pugh a John P Jones wedi cyfarfod gyda Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynglyn a cael 'ramps' ar y bont Dolybont. Adroddwyd fod angen tario y ffordd at y bont, ac y byddai rhaid cadw hyn mewn cof petai 'plainings' ar gael yn lleol.
- b) Roedd ambell dirlithriad ar ffyrdd yr ardal yn dilyn y tywydd difrifol yn ddiweddar, ac angen gwaith tacluso gan yr Adran Briffyrdd.
- c) Nodwyd y dylid ystyried cyfraniadau l'r neuaddau pentref yn ol yr arfer, ynghyd a chydabyddiaeth am eu defnydd. Penderfynwyd fel a ganlyn;  
Neuadd Dinas Mawddwy - £1000.(Cafwyd datganiad diddordeb gen y Cyng Hedd Pugh ag Idris Jones)  
Neuadd Aberangell - £500.(Cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng Iwan Foulkes a Berwyn Harding)
- d) Roedd angen ail-lenwi deunydd golchi dwylo yn y toiledau yn y Dinas.
- e) Roedd dwr yn rhedeg ar Riw Landrin, ac yn methu y cylfert – a gofynnwyd a oedd angen cylfert arall. Canlyniad hyn yw bod rhew ar adegau yn y gaeaf, a oedd yn eithriadol beryglus i ddefnyddwyr y ffordd.
- f) Roedd yna dwll ar wyneb y ffordd ar Bont Wen, Aberangell.
- g) Mynewyd teimladau cryf am y trafferthion i gael apwyntiad yn y feddygfa yn Machynlleth, ac roedd yn amlwg fod yna esgeulustod mawr. Roedd angen codi hyn gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned, ac hefyd gyda'n Haelod Cynulliad a'n Haelod Seneddol.
- h) Adroddwyd fod Liz Haynes o Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn ymdeol diwedd y mis, un a oedd yn brofiadol ac wedi gwneud llawer yn yr ardal. Roedd gobaith y byddai'r gwaith ar Bont Dolybont wedi cychwyn cyn iddi ymdeol.
- i) Gofynnwyd i'r Cyng. John P Roberts roi adroddiad byr am y newyddion diweddaraf o Gyngor Gwynedd yn y cyfarfod nesaf.
- j) Dywedodd y Cyng John P Roberts fod angen rheswm wrth roi sylwadau ar geisiadau Cynllunio. Yn achos Cefn Gwyn Hall, Aberangell yn ddiweddar dywedodd na allai ef dynnu y cais i mewn i Bwyllgor yn ei swyddogaeth fel Cynghorydd Sir am nad oedd rheswm wedi ei roi gan y Cyngor Cymuned paham yr oedd ddim yn gwrthwynebu. Mynegwyd rhai sylwadau ar hyn gan y Cyng. Hedd Pugh, a bod angen gwell eglurhad. Penderfynwyd gwahodd Jonathan Cawley Pennaeth Adran Cynllunio y Parc Cenedlaethol atom i'r cyfarfod nesaf.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 20fed o Fai yn Neuadd Dinas Mawddwy am 7.30 O'R GLOCH.**